# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher yr 8fed o Ionawr 2025 am 8.00pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Christopher Smoothy (Cadeirydd), Sarah Pask, Iori Saer, Dorian Lewis, Huw James, Wyn Evans, Elgan Williams ac Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**YMDDIHEURIADAU**: dim

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 6ed o Dachwedd 2024 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:**
Byddai'r Cynghorydd Huw James yn gadael y cyfarfod pan fyddai materion tir a rhenti'r iddo yn cael ei drafod.
Byddai'r Clerc yn gadael pan byddai Cyflog y Clerc yn cael ei drafod.
Byddai'r Cynghorydd Sir Jean Lewis yn gadael pan byddai materion Cynllunio yn cael ei trafod.

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd perchnogion Blaenllain wedi danfon ebost yn diolch am y coed a nodi eu bod wedi cael eu plannu ar clawdd y cae roeddent yn rentu wrth y Cyngor.
Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis yn trefnu fod Mike Jacobs o Gyngor Sir Caerfyrddin yn ymweld a chyffordd Passby i weld beth allai cael ei wneud i leddfu'r problemau amser bws ysgol.
Roedd y cyfreithiwr Edward Harries wedi ymateb gyda nifer a gwestinnau parthed y tir i'w gofrestru. Trafodwyd yr ebost mewn manylder a cytunwyd i'r clerc ofyn am farn y cyfreithwir ar sut i symud ymlaen.
Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi gofyn i'r arwyddion cafodd eu difrodu cael eu atgyweirio ac byddai'n dilyn I fyny ar y mater.

**5: GOHEBIAETH**

**A** – Hysbyswyd y clerc fod diffibriliwr Blaenwaun ddim wedi bod yn gweithio am gyfnod. Darganfyddodd y clerc fod batri newydd wedi cael ei osod ynddo ac mi'r oedd yn gweithio yn awr.

**B** – Roedd Un Llais Cymru wedi ebostio 'Community & Town Councils Digital Guidance on 1. Use of email a 2. Procurement'. Roedd y clerc wedi darllen y ddau ac roedd y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r ddau.

**C** – Roedd Russell Vickers o Sarnau, Cwmbach wedi ebostio yn gofyn a oedd gan y Cynghorwyr unrhyw argymhellion neu syniadau parthed ei gais cynllunio arfaethedig a'i ddatblygiad. Darllenwyd yr ebost i bawb.

**CH** – Roedd Cymdeithas Cymuned Llanwinio wedi gwenud cais am gymorth ariannol i dalu am atgyweirio'r drysau, yswiriant a chostau trydan y neuadd. Cytunwyd i roi £2000 ac edrych i mewn i'r gymdeithas cael ei ddileu gan symud y neuadd i gyfrifoldeb y Cyngor gan taw arian o'r Cyngor oedd wedi talu am y neuadd yn wreiddiol.

**6: CYLLIDEB yn cynnwys PRAESEPT, CYFLOGAETH a CYFLOG Y CLERC**

Dosbarthwyd cyllideb arfaethedig gan y clerc i'w drafod.
Trafodwyd pob eitem yn unigol.
Gadawodd y clerc y cyfarfod tra bod cyflog y clerc yn cael ei drafod. Cytunwyd I godi cyflog y clerc i £4500 y flwyddyn o mis Ebrill.
Newidwyd y gyllideb i gyfleu hyn.
Nododd y clerc ei bod wedi bod yn glerc cyflog ers 30 mlynedd a chynnigodd i wneud cyflog y cyngor a byddai yn golygu na byddai angen gwasanaeth DM Payroll Services yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd i'r clerc wneud y gyflogaeth o fis Ebrill.
Byddai'r clerc yn holi i weld a oedd costau Vision ICT yn sefydlog.
Cytunwyd y gyllideb am 2025-2026.
Cytunwyd i gadw'r Praesept yn £6000 am 2025-2026.

**7. Rheolau Ariannol 2024**

Roedd Un Llais Cymru wedi cylchredeg model o Reolau Ariannol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru. Roedd y clerc wedi diwygio'r rheolau i fod yn berthnasol ar gyfer Llanwinio ac fe mabwysiadwyd y Rheolau Ariannol Newydd.

**8. DERBYNIADAU:**

Llôg £16.57
Tyrbein Gwynt (Plasparcau) -  £1,177.50
Praesept - £2,000.00
Tyrbein Gwynt (Rhydgoch) - £3,695.31

**9: BILIAU:**

| | |
|---|---|
| Liza Jones – Cyflog clerc Tachwedd & Rhagfyr | £560.00 |
| CaTHEM- YG | £210.00 |

Awdurdodwyd yn anfonebau i'r clerc eu talu drwy bancio ar-lein.

**10: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £4,932.05 |
| Cyfrif Trysorydd | £6,572.82 |
| **Cyfanswm o** | **£11,504.87** |

Dosbarthwyd adroddiad Gwariant v Cyllideb hyd 31/12/24, fe'i drafodwyd a chafwyd yn gywir.

**11: CYNLLUNIO:**

PL/08562 – Cais am newid defnydd tir I 3 pod glampio (ailcyflyno cais PL/07646) @ Sarnau, Cwmbach, Hendygwyn, SA34 0DR

**12: Unrhyw fater arall:**

Codwyd y materion/pryderon isod gyda'r CYnghorydd Sir Jean Lewis:

a. Cais am fin halen ger tro Blaendyffryn, Cwmfelinmynach
b. Pryderon am safon y gwaith atgyweirio heol ger Fferm Lion, Blaenwaun
c. Tir yn rhoi ar y rhiw ger Fferm Bwmper
d. Tipio anghyfreithlon rhwng Passby a Rhydfawr

**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher y 5ed o Fawrth 2025 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**